

## Rhifyn 39 - Teg edrych tuag adre



### Helo o Lundain

Anfonwyd: Dydd Gwener, 21 Hydref 2016 04:41

Oddi wrth: [idevans@gwe.cym](mailto:idevans@gwe.cym)

At: Lois

Helo.

Dw i'n cael amser da yma gyda Rhys.

Mae ei gartref newydd yn Llundain yn ddi-ddorol iawn. Tu allan, mae'n lliwgar ac mae ffenestri crwn yn y waliau. Efallai mai "clyd" yw'r gair gorau i'w ddisgrifio. Tu mewn, mae'n fach ond mae popeth yma – ystafell wely ddwbl, lolfa (lle dw i'n cysgu ar y sofffa!), cegin / ystafell fwyta ac ystafell ymolchi fach iawn. Talodd o £40 500 amdano ac mae o'n meddwl ei fod o wedi cael bargaen! Mae llun yn yr atodiad.

Anodd credu bod ei gartref wedi teithio o gwmpas y byd yn cario offer trydanol unwaith. Mae'n gartref gwyrdd iawn achos mae o wedi cael ei wneud drwy ailgylchu rhywbeth arall!

Mae o'n byw yn agos i'r afon ac felly mae'n lle braf iawn i gerdded ar ôl swper. Mae bws yn mynd heibio bob deg munud, felly mae teithio i mewn i'r ddinas yn hawdd.

Mae Rhys yn anfon ei gariad ac yn edrych ymlaen at ddod adre dros y penwythnos. Mae o'n dweud bydd o'n dod â llwyth o ddillad budr i ti eu golchi, Mam. Neis iawn!

Wela i chi nos Sul – bydd y trê'n yn cyrraedd Caer am wyth o'r gloch.

Cariad

Lois

## Geirfa

<b>Cymraeg</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Saesneg</b>
crwn	fel cylch	round
atodiad	ffeil sy'n cael ei ychwanegu at e-bost	attachment
offer trydanol	peiriannau sy'n defnyddio trydan	electrical equipment

# Beth ar y ddaear ...?

 [www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-39-teg-edrych-tuag-adre/beth-ar-y-ddaear/](http://www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-39-teg-edrych-tuag-adre/beth-ar-y-ddaear/)

Rhifyn 39 - Teg edrych tuag adre



Edrychwch ar y sioe sleidiau yma ac yna ewch i Dasg 1.



Sleid 1



Sleid 2



Sleid 3



Sleid 4



Sleid 5

Mae rhai pobl yn byw mewn lleoedd diddorol iawn – ar ben mynyddoedd, mewn ogofâu, o dan y ddaear, hyd yn oed ar ganol cylchfan. Mae rhai pobl yn byw yn y gofod yn yr orsaf wyddonol ryngwladol hefyd.

Wel, beth am y syniad o fyw o dan y môr? Mae pobl yn bwyta o dan y môr ac yn mynd ar eu gwyliau o dan y môr eisoes, fel mae'r sleidiau'n dangos. Felly mae'n siŵr bod byw o dan y môr yn bosib hefyd.

Mae'r syniad yn dod yn eitha poblogaidd mewn rhai rhannau o'r byd – yn enwedig yn y Dwyrain Canol. Yn Dubai, er enghraifft, mae tai rhyfeddol yn cael eu cynllunio.

Mae tair lefel i'r tai hyn:

- o dan y môr
- ar lefel y môr
- y llawr uchaf.

Beth sydd ar bob lefel?

#### **O dan y môr:**

- y brif ystafell wely
- ystafell ymolchi
- ffenestri o'r llawr i'r nenfwd er mwyn medru gweld y pysgod a'r bywyd o dan y môr

#### **Ar lefel y môr**

- ystafelloedd gwely
- ystafell ymolchi
- ystafell fyw gyda man bwyta
- cegin

#### **Y llawr uchaf**

- ystafell wely
- bath arbennig lle mae'r dŵr yn chwyrlio o'ch cwmpas

Gan fod y cartrefi tua dwy filltir a hanner o'r lan, rhaid teithio ar gwch neu awyren fach i'w cyrraedd.

## Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
ogofâu	lluosog ogof: tyllau mawr mewn creigiau	caves
cylchfan	ynys ar ffurf cylch lle mae nifer o ffyrdd yn dod at ei gilydd	roundabout
yr orsaf wyddonol ryngwladol	gorsaf yn y gofod lle mae gwyddonwyr yn cynnal arbrofion	the international space station
am gyfnodau	am beth amser	for periods of time
rhyfeddol	arbennig iawn, iawn	wonderful, amazing
nenfwd	to'r ystafell	ceiling
chwyrlio	troi o gwmpas yn gryf, troelli	to whirl



# Teg edrych tuag adre?

 [www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-39-teg-edrych-tuag-adre/teg-edrych-tuag-adre/](http://www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-39-teg-edrych-tuag-adre/teg-edrych-tuag-adre/)

Rhifyn 39 - Teg edrych tuag adre



Chris

Dw i wedi cael llond bol!



Jo

Beth sy wedi digwydd nawr?



Chris

Dyn ni newydd gael andros o ffrae. Dwedais i fy mod i isie treulio'r prynhawn yn fy ystafell wely ac yna ffrwydrodd Mam.



Jo

Pam?



Chris

Mae hi'n dweud 'mod i'n treulio mwy o amser yn fy ystafell wely yn siarad â fy ffrindiau ar-lein nag ydw i gyda'r teulu.



Jo

Ydy hynny'n wir?



Chris

Efallai – ond rhaid i fi gael amser i fi fy hun neu bydda i'n mynd yn boncyrs. Dw i ddim isie hongian o gwmpas gyda'r teulu drwy'r amser.



Jo

Cofia, mae'n anodd i dy fam – mae hi isie dy gwmni di hefyd.



Chris

Ydy, ond yn ystod y ffræ, dechreuodd hi feirniadu fy nillad i, beth dw i'n ei fwyta a fy ffrindiau i hefyd.



Jo

O?



Chris

Mae fy nillad i'n "anniben". Dw i ddim yn bwyta digon o fwyd "iach" ac mae fy ffrindiau i'n "ddylanwad drwg" arna i.



Jo

Diolch yn fawr!!!



Chris

Doedd hi ddim yn meddwl amdanat ti.



Jo

Diolch am hynny! Mae hyn yn anodd i dy fam, cofia.



Chris

Rwyt ti newydd ddweud hynna.



Jo

Wel, tan nawr mae hi wedi bod yn gwneud y penderfyniadau i gyd i ti – beth rwyt ti'n wisgo ac yn bwyta, ble rwyt ti'n mynd, faint o arian poced rwyt ti'n gael. Nawr, mae pethau'n wahanol. Rwyt ti isie gwneud dy benderfyniadau dy hun. Rwyt ti'n lwcus mewn un peth.



Chris

Beth?



Jo

Dydy hi ddim yn swian wrthot ti am faint o waith ysgol rwyt ti'n wneud. Dyna dw i'n ei gael bob dydd a bob nos. "Rwyt ti'n treulio gormod o amser ar y cyfrifiadur. Dylet ti fod yn gwneud dy waith cartref."



Chris

Dw i'n cael hynna hefyd – a "Dylet ti fod yn ffeindio gwaith rhan-amser." Wel, dw i wedi cael llond bol y tro yma a dw i wedi gwneud penderfyniad.



Jo

Beth?



Chris

O, na! Rhaid i fi fynd. Wnawn ni siarad nes ymlaen.

## Geirfa


<b>Cymraeg</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Saesneg</b>
wedi cael llond bol	wedi cael digon	to have had a bellyful, to have had enough
Dyn ni newydd gael andros o ffrae.	Rydyn ni newydd fod yn ffraeo / cweryla'n ofnadwy.	We've just had a huge quarrel.
swnian	cwyno o hyd	to nag
ffrwydro	chwythu i fyny	to explode



# Ar werth

[www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-39-teg-edrych-tuag-adre/ar-werth/](http://www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-39-teg-edrych-tuag-adre/ar-werth/)

Rhifyn 39 - Teg edrych tuag adre



## Gwêl y môr

Tŷ ar ei ben ei hun, yng nghanol cefn gwlad Cymru



## Yr ardal:

Mae'r tŷ mewn lleoliad ardderchog, wrth ochr y B456, y ffordd sy'n rhedeg ar hyd yr arfordir, ac felly mae ganddo olygfa anhygoel o'r môr. Mae'r tŷ o fewn pum munud i'r dref mewn car, ac felly mae'n hawdd cyrraedd yr ysgolion, y siopau, yr ysbty, y theatr a'r sinema. Mae gwasanaeth bysiau rheolaidd.

## Y tŷ

**Lawr llawr:** ystafell fyw fawr, gyda ffenestri llydan sy'n edrych dros y môr; cegin; tŷ bach a chyntedd

**I fyny'r grisiau:** dwy ystafell wely fawr, ystafell ymolchi a thŷ bach ar wahân

Mae hwn yn dŷ eco:

- Mae e wedi cael ei adeiladu o ddefnyddiau sydd wedi eu hailgylchu.
- Mae gwllân defaid yn y waliau i'w hynysu.
- Mae'r toiledau'n compostio'r gwastraff.
- Mae gwydro triphlyg (tair haen o wydr) yn y ffenestri.
- Mae porfa / glaswellt ar y to i'w ynysu.
- Mae paneli solar yn yr ardd.
- Mae'r dŵr yn dod o ffynnon leol.

## Tu allan

Digon o dir ar gyfer creu gardd ac adeiladu garej

Pris: £450 000

Brysiwch. Mae llawer o ddiddordeb yn y tŷ hwn ac felly y cyntaf i'r felin gaiff falu.

## Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
lleoliad	lle	position
golygfa	yr hyn sydd i'w weld	scenery
cyntedd	yr ystafell gyntaf mewn rhai tai; weithiau mae pobl yn hongian cotiau yma	hallway
ar wahân	ar ei ben ei hun	separate
lleol	yn yr ardal	local
ynysu	cadw'r gwres i mewn a'r oerfel allan yn y gaeaf; cadw'r gwres allan er mwyn cadw'r tu mewn yn oeraidd yn yr haf	to insulate
gwydro triphlyg	tair haen o wydr	triple glazing
y cyntaf i'r felin gaiff falu	y cyntaf fydd yn llwyddo – y person cyntaf i gynnig pris teg am y tŷ fydd yn ei gael	first come first served

# Ble ar y ddaear ...?

[www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-39-teg-edrych-tuag-adre/ble-ar-y-ddaear/](http://www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-39-teg-edrych-tuag-adre/ble-ar-y-ddaear/)

[Rhifyn 39 - Teg edrych tuag adre](#)

Edrychwch ar y sioe sleidiau yma'n ofalus ac yna ewch i Dasg 1.







Sleid 1



Sleid 2



Sleid 3



Sleid 4



Sleid 5

*Coober Pedy Underground House - Bedroom gan Jill Myers; fe'i defnyddir o dan CC BY.*

*Cooper Pedy - Underground house gan Vanguard Visions; fe'i defnyddir o dan CC BY.*

*Coober Pedy, South Australia - underground house display gan Nachoman\_Au; fe'i defnyddir dan CC BY.*

# Baguette neu custard slice?

[www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-39-teg-edrych-tuag-adre/baguette-neu-custard-slice/](http://www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-39-teg-edrych-tuag-adre/baguette-neu-custard-slice/)

Rhifyn 39 - Teg edrych tuag adre



Dyna ble roeddwn i yng nghanol cannoedd o deithwyr – rhai mewn siwtiau smart, yn cario cesys dogfennau, yn gwibio heibio, yn gwybod yn union i ble roedden nhw'n mynd; rhai teuluoedd mewn dillad gwyliau yn llusgo cesys, yn ymlwybro tuag at y siopau bwyd parod a rhai'n sefyll yn llonydd, yn edrych i fyny ar y sgriniau du enfawr, yn ceisio gweld pryd byddai eu trenau'n gadael.

Cannoedd o bobl – o bob lliw a llun – yn siarad ieithoedd gwahanol. Ychydig o Ffrangeg fan hyn ... ychydig o Fandarín fan acw ... môr o Saesneg ym mhob man ac yna, yn sydyn, fe'u clywais i nhw ... teulu bach o Gymru yn siarad iaith y nefoedd yn sefyll o flaen siop fara a chacennau, yn wynebu'r sgrin fawr. Dyma fy nghyfle!

“Dach chi'n dod o Gymru?” gofynnais i'n hyderus.

“Ydyn,” atebodd y dyn, gan edrych yn amheus ar fy nillad budr, tyllog a 'ngwallt clymog.

“Wedi bod i'r brifddinas am y penwythnos?” gofynnais i wedyn.

“Ie, dyna ni,” atebodd y tad eto. Roedd ei lygaid yn canolbwyntio ar y briwiau ar fy mraich.

Erbyn hyn roedd ei wraig a'r ddau blentyn yn edrych arna i.

“Oes gynnoch chi ychydig o bres sbâr i'm helpu i, os gwelwch yn dda? Mae byw yn y ddinas yn ddrud. Does gen i ddim bwyd ... a dyma'r unig bethau sy gen i,” dywedais, gan ddangos fy rycsac budr, blêr.

“Pres?” gofynnodd y dyn. “Mmm ... wel ... gawn ni weld ...” dywedodd, yn ceisio penderfynu oedd o'n mynd i roi ychydig bunnoedd – neu geiniogau – i mi.

“Gawn ni weld?” meddyliais i'n ddig. Roedd o'n sefyll yn dalog gyda'i deulu, mewn dillad trwsiadus glân, ar ôl cael cinio mawr, mae'n siwr, ond roeddwn i yno heb ddim – dim teulu, dim bwyd, dim cartref! Dim byd!



“Pres?” dywedodd o eto. “Na, does gen i ddim pres, ond gan eich bod chi’n siarad Cymraeg, dewch efo fi.”

Trodd y dyn at y siop tu ôl iddo. “Brechdan – a phaned o de?” cynigiodd.

O, wel, gwell na dim, meddyliais i. “Brechdan? Na, dim diolch. Mi gymra i *custard slice* os gwelwch yn dda.”

“*Custard slice*? Ond byddai brechdan yn well i chi – edrychwch: *baguette* ham a salad mawr, blasus, er mwyn i chi gael fitaminau a phrotein. Bydd hi’n eich llenwi chi’n well na *custard slice*!”

“*Custard slice*,” dywedais eto – yn fwy pendant y tro hwn. “Os gwelwch yn dda!”

“O, wel, *custard slice* amdani,” ildiodd y dyn pan welodd nad oeddwn i am newid fy meddwl.

“A photelaid o ddŵr oer glân, os gwelwch yn dda,” ychwanegais i.

“Dyma chi!” Cymerais i’r *custard slice* yn awchus. Yna, sylwais ar y ddelwedd o fynyddoedd gwyrdd a nentydd clir Cymru ar label y botel ddŵr a daeth lwmp i ’ngwddw.

“Ein trêni ni,” gwaeddodd y fam, gan bwyntio at y sgrin fawr. “Dewch.”

Yna, dyma’r teulu’n codi eu bagiau ac yn ei heglu hi am y trêni, a minnau’n sefyll yn llonydd, yn dal *custard slice* â deigr yn llifo i lawr fy moch, yn eu gwylio nhw’n dychwelyd i’w cartref a’u gwlad.

## Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
dogfennau	lluosog dogfen: llythyrau, ffurflenni, adroddiadau ac ati - gwaith papur	documents
ymlwybro	cerdded yn araf	to wander slowly
yn amheus	ddim yn siŵr	suspiciously
tyllog	ansoddair yn gysylltiedig â twll; yn cynnwys tyllau	full of holes
clymog	ansoddair yn gysylltiedig â cwlwm a clymu; yn cynnwys lymau	knotted
trwsiadus	taclus	tidy, smart
ildio	rhoi i mewn	to give in
yn awchus	yn awyddus iawn, yn farus bron	eagerly, greedily
delwedd	llun, symbol	image
ei hel hi	cychwyn / dechrau i ffwrdd yn gyflym	to set off quickly

## Rhifyn 39 - Teg edrych tuag adre



Ydych chi'n hoffi mynd i'ch ystafell i guddio weithiau – i ddianc rhag pawb? Wel, peidiwch â mynd i fyw yn y tŷ yma oherwydd does dim unman i guddio yma. Dyma'r tŷ tryloyw.



Mae'r tŷ tryloyw hwn yn Tokyo, Japan, yn wahanol iawn i unrhyw dŷ arall sydd yn yr un stryd. Yn lle waliau o flociau concrit, mae'r waliau wedi eu gwneud o wydr ac mae hyn, wrth gwrs, yn gwneud y tŷ'n dryloyw.

Sou Fujimoto yw'r pensaer gynlluniodd y tŷ ac roedd e eisiau creu'r syniad o fyw tu mewn i goeden. Felly, tri phrif lawr sydd i'r adeilad, ond rhwng y rhain mae 21 o 'blatiau llawr' neu blatfformau, gyda grisiau neu ysgolion yn eu cysylltu â'i gilydd. Mae symud rhyngddyn nhw fel sboncio o gangen i gangen ar goeden.

Mae'r tŷ wedi ei adeiladu o gwmpas ffrâm o ddr. Does dim llawer o waliau ond gan eu bod wedi eu gwneud o wydr, rydych chi'n gallu gweld beth mae pobl yn ei wneud mewn rhannau eraill o'r tŷ drwy'r amser. Nid hynny'n unig, mae unrhyw un sy'n mynd heibio ar y stryd yn gallu gweld beth rydych chi'n ei wneud hefyd. Felly, does dim unman i guddio!

Sou Fujimoto - House NA gan eager; fe'i defnyddir o dan CC BY.

Sou Fujimoto - House NA gan eager; fe'i defnyddir o dan CC BY.

## Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
tryloyw	Mae rhywbeth sy'n dryloyw yn gadael y golau drwyddo, felly mae'n bosib gweld drwyddo.	transparent
pensaer	person sy'n cynllunio adeiladau	architect
sboncio	neidio'n ysgafn	to spring, skip
dur	metel wedi ei wneud o haearn a charbon; metel cryf iawn	steel

# Y Navaho

[www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-39-teg-edrych-tuag-adre/y-navaho/](http://www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-39-teg-edrych-tuag-adre/y-navaho/)

Rhifyn 39 - Teg edrych tuag adre



Hafan

Hanes

Cwestiynau


Lluniau

Cysylltu

## Y Daith Hir

Mae'r Navaho yn byw yng Ngogledd America.

Llwyth o frodorion Gogledd America ydyn nhw. Mae tua 300 000 ohonyn nhw ac mae'r rhan fwyaf yn byw ar randir yn ne-orllewin Gogledd America.




Cartref y Navaho heddiw



## Hanes

Ffermwyr oedd y Navaho yn wreiddiol. Roedden nhw'n byw yn Arizona, Mecsico Newydd, Utah a Colorado. Roedden nhw'n tyfu eu cnydau eu hunain. Roedd y merched yn edrych ar ôl y cartrefi a'r tir ac roedd y dynion yn hela am fwyd ac yn amddiffyn y bobl. Roedden nhw'n byw mewn "hogans" – cartrefi wedi eu gwneud o ffrâm o bren gyda waliau wedi eu gwneud o glai.



Daeth milwyr a llwythau eraill i ymosod ar y Navaho a daeth pobl ddieithr i gymryd eu tir ac i fyw yno.

Yn 1864, ymosododd Cynol Kit Carson a'i filwyr yn ffyrnig ar y Navaho, gan ladd llawer ohonyn nhw a dinistrio anifeiliaid, cnydau, offer a chartrefi. Cipiodd lawer ohonyn a'u gorfodi nhw i gerdded 300 milltir i randir Bosque Redondo yn Fort Sumner yn Mecsico Newydd, i fyw fel carcharorion. Roedd y daith yn hir ac yn anodd a bu farw tua 200 o'r Navaho o newyn, salwch a gwendid.

Doedd pennaeth y llwyth, Manuelito, neu Bullet, a'i ddilynwyr ddim yn fodlon mynd i Bosque Redondo ac felly buon nhw'n ymladd yn erbyn y fyddin. Fodd bynnag, yn y diwedd, oherwydd prinder bwyd, roedd rhaid iddyn nhw ildio a mynd i Bosque Redondo hefyd.

Roedd bywyd yn y rhandir yn ofnadwy. Roedd y Navaho wedi gadael tiroedd ffrwythlon, lle roedd digon o borfa dda a dŵr clir ar gyfer magu anifeiliaid, a nawr roedd rhaid iddyn nhw fyw mewn tir sych, anodd ei drin. Roedd bywyd mor anodd fel bod Manuelito a rhai eraill o'r arweinwyr wedi cael caniatâd i fynd i Washington D.C. ym 1868 i ofyn am randir newydd. Yn y diwedd, cawson nhw eu symud yn ôl i randir newydd – ar y tir lle roedden nhw wedi bod yn byw yn y lle cyntaf.

Erbyn heddiw, mae gan y rhandir ei lywodraeth ei hun, ei heddlu a'i wasanaethau – fel unrhyw wlad – ac mae gan y Navaho arlywydd.



## Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
llwyth	grŵp o bobl sy'n rhannu'r un ffordd o fyw	tribe
brodorion	lluosog brodor; rhywun sy'n dod o wlad benodol	natives
cnydau	lluosog cnwd: bwyd sy'n tyfu	crops
amddiffyn	gwarchod, cadw'n ddiogel	to defend
cipio	cymryd	to take
newyn	dim bwyd	starvation
gwendid	y cyflwr o fod yn wan	weakness
pennaeth	arweinydd	chief
ildio	rhoi mewn	to yield, give in
rhandir	Yn hanesyddol, roedd y brodorion yn cael eu symud o'u cartrefi eu hunain ac yn cael eu gorfodi i fyw ar darn o dir.	reservation
trin	gweithio	to treat
arlywydd	arweinydd	president

# Gair o'r gwersyll

[www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-39-teg-edrych-tuag-adre/gair-o-r-gwersyll/](http://www.gweiddi.org/rhifynnau/rhifyn-39-teg-edrych-tuag-adre/gair-o-r-gwersyll/)

Rhifyn 39 - Teg edrych tuag adre



## Gair o'r Gwersyll

“Pam dw i'n gorfod aros fan hyn?” mae Ali yn gofyn. “Dw i'n gallu siarad pedair iaith a dw i'n ddoctor yn fy ngwlad fy hun. Pam na cha i fynd ymlaen i Ewrop lle galla i helpu pobl a lle galla i roi cartref go iawn i 'ngwraig a 'mhlant?”

Mae Ali, fel miloedd o ddynion tebyg, wedi ffoi o'i gartref oherwydd ymladd yn y dref lle roedden nhw'n byw.

“Doeddwn i ddim eisiau gadael,” meddai. “Dyna ble roedd fy nghartref i. Dyna ble roedd fy ngwreiddiau i. Dyna ble ces i fy ngeni a'm magu. Dyna ble wnes i briodi a dyna ble cafodd fy nau fab eu geni. Dyna ble roedden ni'n hapus fel teulu. Dewch i gyfarfod â nhw,” mae'n fy ngwahodd.

### Y gwersyll

Tu allan i'w pabell, mae Anissa, ei wraig, yn eistedd o flaen tân bychan. Gerllaw, mae eu dau fab yn cicio pêl, heb ddangos unrhyw awch na mwynhad. Maen nhw'n fy ngweld ... ac yn fy anwybyddu. Wrth i fi agosáu, mae Anissa yn edrych i fyny o'r tân am eiliad ac yn rhoi gwên wan, ddideimlad i fi.

“Rydyn ni'n poeni am y plant,” mae Ali'n dweud. “Dylen nhw fod yn yr ysgol. Dw i'n trio eu dysgu nhw ond heb lyfrau mae hynny'n anodd. Rydyn ni'n poeni am y ffrindiau maen nhw'n eu gwneud hefyd. Mae bywyd yn anodd fan hyn.”



“Mae bywyd yn anodd fan hyn!” Dyna ddweud y cyfan mewn chwe gair - ond dydyn nhw ddim yn ddigon i gyfleu pa mor ofnadwy yw bywyd yn y lle annynol hwn. Budreddi ... salwch ... drewdod ... pobl yn ymladd er mwyn cael gweld meddyg ... merched yn golchi dillad mewn powlenni wrth ochr tap cymunedol. Does dim preifatrwydd. Does dim hunan-barch yma.

“Dyma gartref am y tro ... ond ryw ddiwrnod, pwy a wŷr?” mae Ali'n cysuro'i hun, wrth i fi adael.



## Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
gerllaw	yn agos	nearby
anwybyddu	ddim yn cymryd sylw	to ignore
annynol	heb unrhyw deimlad dynol	inhuman
budreddi	enw sy'n gysylltiedig â budr: rhywbeth sy'n fudr / brwnt	dirt
cymunedol	rhywbeth mae'r gymuned yn ei rannu	community
Pwy a wŷr?	Pwy sy'n gwybod?	who knows?
cysuro	calonogi, ceisio lleihau gofid	to comfort